

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb eu cadarnhau

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021

yn Ystafell y Mileniwm, Pencadlys y Bwrdd Iechyd, Baglan ac ar Zoom

Yn bresennol

Emma Woollett
Mark Hackett
Steve Spill
Martyn Waygood
Christine Williams
Chris White

Cadeirydd
Prif Weithredwr
Is - gadeirydd
Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf
Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor
Iechyd/Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl/Dirprwy Brif
Weithredwr
Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
Aelod Annibynnol
Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer y Gweithlu a Datbygu Sefydliadol
Aelod Annibynnol
Aelod Annibynnol
Aelod Annibynnol
Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Aelod Annibynnol
Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Strategaeth

Keith Reid
Darren Griffiths
Jackie Davies
Tom Crick
Kathryn Jones
Mark Child
Maggie Berry
Martin Sollis
Andrew Jarrett
Reena Owen
Richard Evans
Keith Lloyd
Nuria Zolle
Siân Harrop-Griffiths

Hefyd yn bresennol:

Pam Wenger
Matt John
Hannah Evans
Irfon Rees
Hugh Patrick
Liz Stauber
Dave Thomas

Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Cyfarwyddwr Digidol
Cyfarwyddwr Trawsnewid
Pennaeth Staff
Cyngor Iechyd Cymuned
Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Archwilio Cymru (ar gyfer cofnod 35/21)

Rhif Cofnod		Camau gweithredu
13/21	CROESO AC YMDDIHEURIADAU	

	Croesawodd Emma Woollett bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Mark Hackett a Steve Spill a oedd wedi ymgymryd â swyddi parhaol y Prif Weithredwr a'r Is-gadeirydd yn y drefn honno. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Sue Evans, y Cyngor Iechyd Cymuned ac Alison Stokes, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd.	
14/21	DATGAN BUDDIANNAU	
	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau	
15/21	STORI'R CLAF	
	Wrth gyflwyno stori'r claf, dywedodd Emma Woollett fod profiad y claf/staff yn elfen bwysig o'r cyfarfod gan ei fod yn atgyfnerthu prif ddiben y Bwrdd a'r sefydliad i ddarparu gofal rhagorol i gleifion. Yn y cyfarfod hwn, canolbwyntiwyd ar ofal diwedd oes, a oedd yn aml yn bwnc nad oedd pobl am ei drafod, yn enwedig o ystyried faint o amser y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ei dreulio'n 'brwydro' dros fywydau. Fodd bynnag, byddai unrhyw un a oedd wedi bod gydag anwyliaid wrth iddynt farw yn gwybod pa mor hanfodol oedd darparu gofal diwedd oes da. Derbyniwyd storïau am gleifion a oedd yn nodi profiadau meddyg ymgynghorol sy'n arbenigo mewn gofal diwedd oes. Rhannodd ddwy enghraifft o oriau olaf cleifion; un ohonynt yn dda, a'r llall yn wael. Tynnodd sylw at ba mor bwysig ydyw i staff gydnabod pryd y mae cleifion yn marw er mwyn sicrhau eu bod yn gyfforddus, ond hefyd er mwyn darganfod a oes ganddynt unrhyw geisiadau, anghenion neu bethau sy'n bwysig iddynt, fel ffydd. Gallai diwallu'r anghenion hyn wneud eu marwolaeth yn adeg fwy urddasol a llai pryderus iddynt hwy, eu teuluoedd a'u staff. Wrth drafod stori'r claf, codwyd y pwyntiau canlynol: Diolchodd Emma Woollett i'r tîm gofal lliniarol am ddarparu'r stori a oedd yn un anodd i'w gwyllo ond yn dangos pam roedd y gwaith mor bwysig. Gwnaeth Christine Williams y sylw fod y stori'n bwerus ac yn emosiynol dros ben, ac yn tynnu sylw at ba mor hanfodol oedd gofal diwedd oes i gleifion. Ychwanegodd bod nifer y marwolaethau yn ystod Covid-19 wedi bod yn ddigynsail, ac roedd yn allweddol bod gan staff y sgiliau i ddiwallu anghenion cleifion, nid yn unig er mwyn y cleifion a'u teuluoedd, ond hefyd er mwyn lles emosiynol y staff eu	

	hunain. Roedd camau allweddol eisoes yn cael eu cymryd i gefnogi staff mewn amgylchiadau mor heriol. Dywedodd Chris White fod y stori'n dangos bwriad y Bwrdd i ofalu am gleifion gystal ag y gallai, gan ychwanegu bod angen cynnwys gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd hefyd yn natblygiad y staff er mwyn sicrhau eu bod hwythau hefyd yn gallu cefnogi cleifion. Dywedodd y byddai'n fuddiol cynnwys y stori ym mhroses sefydlu'r staff er mwyn dangos bod y staff yn ymuno â sefydliad gofalgarg. Dywedodd Richard Evans fod profiadau'r meddyg ymgynghorol wedi helpu i lywio gwaith a wnaed ar bob un o'r safleoedd gyda'r holl grwpiau staff. Ychwanegodd mai peth cymharol brin ar nifer o wardiau'r ysbytai cyn y pandemig oedd marwolaeth cleifion, felly roedd gan staff lai o brofiad o roi cymorth i gleifion ar ddiwedd eu hoes. Dyna pam yr oedd y tîm gofal lliniarol mor hanfodol. Dywedodd Christine Williams fod y stori wedi'i rhannu gyda phob tîm drwy'r grŵp diwedd oes, gan ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl staff. Byddai cyfres o weminarau'n cael eu cynnal hefyd gan fod nifer o feysydd clinigol nad ydynt yn brofiadol wrth roi cymorth cefnogi cleifion sy'n marw. Ychwanegodd ei bod hefyd yn hanfodol bwysig fod staff cymunedol yn gwybod sut i ddiwallu anghenion y rhai sy'n dymuno marw gartref. Dywedodd Mark Child fod marwolaeth yn gymaint rhan o fywyd ag yw genedigaeth, ac y dylid treulio'r un faint o amser yn paratoi ar gyfer marwolaeth ag a dreulir ar gyfer genedigaeth. Ychwanegodd ei fod yn rhywbeth yr oedd cymdeithas yn ei chael yn anodd ac roedd yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud. Dywedodd Steve Spill fod y caplan yn rhan allweddol o'r profiad cadarnhaol i'r claf a gofynnodd i ba raddau y gallai'r gwasanaeth ddarparu ar gyfer credoau lluosog. Ymatebodd Chris White y treuliwyd amser dros y blynyddoedd diwethaf yn ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael i gleifion ac y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud wrth i'r rhanbarth ddod yn fwy amlddiwylliannol.	
Penderfyniad:	- Nodwyd stori'r claf.	
16/21	COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL	
	Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 a'u cadarnhau fel cofnod gwir a chywir.	

17/21	MATERION YN CODI	
	Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddent ar yr agenda.	
18/21	COFNOD GWEITHREDU	
	Derbyniwyd a nodwyd y cofnod gweithredu.	
19/21	ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
	Derbyniwyd adroddiad llafar yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Emma Woollett sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd gwaith y bwrdd iechyd yn dal i gael ei ddylanwadu'n fawr gan Covid-19; - Parheir i ddarparu cymorth i gartrefi gofal sy'n profi pwysau; - Roedd angen i'r ffocws ar 'ddwylo, wyneb, gofod' barhau ac anogwyd aelodau o'r cyhoedd i gael prawf os oeddent yn profi unrhyw un o'r symptomau allweddol – tymheredd uchel, peswch neu golli blas/arogl; - Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cyflwyno brechlynnau a manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch i'r staff sy'n ymwneud â hyn; - Croesawyd Steve Spill fel yr Is-gadeirydd parhaol a thalwyd teyrnged i Martyn Waygood am ei waith yn y rôl dros dro; - Hwn oedd cyfarfod olaf y Bwrdd i Chris White cyn iddo ymddeol ym mis Mawrth 2021 a chydabuwyd effaith ei gyfraniad sylweddol dros y tair blynedd diwethaf; - Bydd Martin Sollis yn camu i lawr fel yr Aelod Annibynnol dros Gyllid ar ddiwedd ei gyfnod yn y swydd a bydd y broses o benodi rhywun yn ei le'n dechrau cyn hir; - Roedd cyfarfodydd gyda'r Arweinwyr a'r awdurdodau lleol a gydag Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd yn parhau.	

Penderfyniad:	- Dylid nod i'r adroddiad.	
20/21	ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR	
	Derbyniwyd adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Weithredwr. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Mark Hackett sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yn bleser cael ei benodi'n Brif Weithredwr y sefydliad; - Roedd wedi derbyn croeso cynnes gan y bwrdd iechyd a'i bartneriaid; - Roedd yn ymroddedig i ddatblygu'r sefydliad ymhellach, yn enwedig o ran iechyd y boblogaeth.	
Penderfyniad:	- Dylid nod i'r adroddiad.	
21/21	DIWEDDARIAD AM COVID-19	
	Derbyniwyd adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Covid-19. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Keith Reid sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd ymateb y bwrdd iechyd i'r pandemig wedi dechrau flwyddyn yn ôl; - Roedd gwelliant o ran lledaeniad y feirws, yn dilyn cyfnod pryderus iawn cyn y Nadolig pan welodd y bwrdd iechyd y gyfradd uchaf o achosion yng Nghymru; - Roedd gwaith modelu sylweddol wedi'i wneud i ddeall amrywiolion newydd y feirws; - Nid oedd yn glir eto a oedd y sefyllfa yn y DU yn mynd i arwain at adferiad neu a fyddai ton arall o'r feirws, felly roedd angen bod yn ofalus wrth i gyfyngiadau gael eu llacio; - Roedd y risg a oedd yn ymwneud ag argaeledd cyfarpar diogelu personol (PPE) wedi'i llacio gan fod lefel y cyflenwad yn parhau'n dda, ond cafwyd risgiau uchel o hyd mewn perthynas â'r gweithlu, a oedd bellach wedi blino ac yn	

	teimlo'n llai gwydn, a hefyd mewn perthynas â chartrefi gofal, a oedd yn parhau i wynebu pwysau sylweddol; - Roedd lefelau salwch staff bellach yn gwella, yn ogystal â'r gallu i recriwtio staff i roi cymorth i ymateb i Covid-19; - Roedd angen ystyried i ba raddau y dylai'r Bwrdd allu deall y risgiau. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Cyfeiriodd Martin Sollis at y ffaith bod y bwrdd iechyd yn gweithio o fewn ei fodel parhau â busnes ac, fel rhan o hynny, fod y Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn wythnosol drwy'r drefn Gorchymyn Aur ar gyfer cofnodi risgiau Covid-19. Ychwanegodd ei bod yn bwysig adolygu'r broses o drosglwyddo risgiau Covid-19 i'r gofrestr risg ehangach pan fyddai'r cyfnod adfer yn dechrau. Nododd Maggie Berry fod nifer y bobl a oedd yn dod ymlaen i gael eu profi wedi lleihau er gwaethaf y cynnydd yn y capasiti profi a gofynnodd a oedd disgwyl i fwy ddod ymlaen. Dywedodd Keith Reid fod y cynnydd yn y capasiti profi wedi bod ar gais Llywodraeth Cymru er mwyn darparu gwydnwch. Roedd y bwrdd iechyd wedi defnyddio dull gwahanol i fyrddau iechyd eraill ar ddechrau'r pandemig gan iddo sefydlu ei ganolfannau profi torfol ei hun tra oedd byrddau iechyd eraill yn defnyddio'r cynigion masnachol. Gan fod y bwrdd iechyd bellach yn defnyddio'r gwasanaethau masnachol, byddai hynny'n rhoi mwy o ddewisiadau ar gyfer profi, yn cynnwys profion cyflym, ac unwaith y byddai'r angen am brofion yn lleihau, gellid defnyddio'r atebion mewnol ar gyfer blaenoriaethau eraill. Dywedodd Siân Harrop-Griffiths, er bod y pwysau cyffredinol ar gapasiti'r system yn lleihau, bod y gwasanaethau cymunedol, gofal sylfaenol a chartrefi gofal yn parhau i fod dan bwysau mawr. Ychwanegodd y bu'n rhaid ymateb i'r llifogydd diweddar yn Sgiwen, a oedd wedi rhoi pwysau pellach ar wasanaethau sylfaenol a chymunedol ac ar gartref gofal gerllaw. Roedd y ffaith i'r bwrdd iechyd allu cynorthwyo mewn modd amserol gyda'r digwyddiad mawr hwn yn dangos bod y bwrdd iechyd mewn sefyllfa gryfach. Rhoddodd Irfon Rees sicrwydd fod y Tîm Cyfathrebu yn gwneud popeth o fewn ei allu i annog pobl i ddod ymlaen i gael eu profi os oedd ganddynt unrhyw symptomau o'r feirws. Cyfeiriodd Reena Owen at y gwasanaeth 'gofal ar ôl marwolaeth' newydd, gan ychwanegu ei bod yn braf gweld datblygiad o'r fath i helpu pobl drwy eu profedigaeth, yn enwedig i'r rhai a brofodd golled yn sydyn.	
--	---	--

	Dywedodd Mark Hackett ei bod yn bwysig manteisio ar y cyfle i edrych ar y newidiadau a wnaed, yn sgil pwysau'r pandemig, i ddod o hyd i ffyrdd o wella dulliau gweithredu'r bwrdd iechyd yn y tymor hir, yn enwedig ar gyfer gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio. Roedd angen i'r Tîm Gweithredol ystyried y blaenoriaethau tymor canolog a chytuno ar y canlyniadau a fyddai'n ofynnol. Dywedodd Emma Woollett fod y Bwrdd yn parhau'n hynod ddiolchgar am y gwaith parhaus i reoli'r ymateb i'r pandemig. Ychwanegodd fod aelodau annibynnol yn teimlo eu bod yn deall y materion ond bod angen i'r ystyriaethau bellach gynnwys sut i ddechrau lleihau'r risgiau a dechrau adfer.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r cynnydd o ran ymateb i Covid-19; - Dylid nodi'r sgôr risg mewn perthynas â Covid-19 sy'n uwch na'r trothwy y cytunwyd arno ddiwedd mis Rhagfyr 2020, sef sgôr o 20 ar gyfer risgiau lluosog; - Cytunwyd bod diweddaru aelodau'r bwrdd am risgiau Covid-19 a mesurau lliniaru Covid-19 drwy gyfathrebiadau'r Gorchymyn Aur yn ddigonol yn ystod cyfnod pan oedd mesurau parhau â busnes ar waith; - Cytunwyd y byddai trosglwyddo risgiau Covid-19 i'r gofrestr risg ehangach yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses o symud o barhad busnes i sefyllfa o adferiad.	PW
22/21	RHAGLEN FRECHU	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi'r rhaglen frechu ar gyfer Covid-19. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Keith Reid sylw at y pwyntiau canlynol: - Cytunodd y Bwrdd ar y model brechu ym mis Medi 2020; - Defnyddiwyd dull modwlar er mwyn sicrhau bod y cynllun yn hyblyg; - Ers dechrau brechu ym mis Rhagfyr 2020, rhoddwyd 40,000 o frechlynnau. Rhoddwyd y mwyafrif drwy'r canolfannau brechu torfol ond roedd nifer uchel hefyd wedi eu rhoi gan ofal sylfaenol; - Y gobaith oedd y byddai'r rhai o fewn y pedair carfan gyntaf yn cael eu dos cyntaf erbyn 14 Chwefror 2021, cyn belled â bod	

	y cyflenwad o frechlynnau'n parhau'n unol â'r niferoedd a gynlluniwyd; - Rhoddwyd y brechlyn Pfizer drwy'r canolfannau brechu torfol ar hyn o bryd ond roedd capasiti meddygon teulu a chontractwyr yn cael ei archwilio; - Roedd darpariaeth gan fferyllwyr hefyd yn cael ei harchwilio. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Nododd Martyn Waygood fod y brechlyn Moderna wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio yn y DU yn ddiweddar a gofynnodd a fyddai hyn ar gael i Gymru, yn enwedig yng ngoleuni'r anghydfod presennol yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ynghylch allforio brechlyn AstraZenica Rhydychen. Dywedodd Keith Reid fod lefelau caffael y brechlyn Moderna yn y DU wedi bod yn is na'r ddau arall. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio'r brechlyn hwn fel prif frechlyn ar gyfer un rhanbarth ac yna rannu cyflenwadau'r rhanbarth hwnnw o'r ddau frechlyn arall ar draws rhanbarthau eraill. Dywedodd Jackie Davies fod llawer o bryder ymhlith y gymuned y byddai pobl yn cael eu hepgor oddi ar y rhestr ar gyfer y brechlyn a gofynnodd sut y casglwyd y manylion. Ymatebodd Keith Reid fod rhestrau o'r boblogaeth wedi'u huwchlwytho i restr imiwneiddio genedlaethol Cymru a bod y bwrdd iechyd a gofal sylfaenol yn gallu defnyddio'r rhestr hon i gysylltu â phobl am gael brechlynnau. Ychwanegodd fod y rhestr yn cael ei diweddarau'n gyson wrth i bobl fudo i wahanol leoliadau daearyddol yn ogystal ag er mwyn nodi'r rhai a oedd wedi'u hepgor o'r rhestr. Roedd hyn yn ychwanegol at y wybodaeth a gedwir gan bractisau meddygon teulu unigol. Dywedodd Darren Griffiths fod dau o gamau gweithredu'r Cadeirydd wedi'u cymryd cyn cyfarfod y Bwrdd er mwyn ei gwneud yn bosib comisiynu practisau meddygon teulu i roi'r brechlyn, ac roedd angen cadarnhau'r camau hynny'n awr. Holodd Nuria Zolle a oedd y rhai a dderbyniodd eu dosau cyntaf yn cael eu hatgoffa o'r angen i barhau i ddilyn y canllawiau ymbellhau cymdeithasol. Ymatebodd Keith Reid fod hyder bod y brechlyn yn amddiffyn unigolion. Naill ai ni fyddai'r rhai a dderbyniodd y brechlyn yn dal y feirws neu, yn achos nifer fach, byddent yn ei ddal ond gyda symptomau llawer llai niweidiol. Fodd bynnag, ni chadarnhawyd eto a allai'r rhai a oedd wedi cael y brechlyn barhau i drosglwyddo'r feirws i eraill, felly roedd yn bwysig eu bod yn parhau i gadw at y canllawiau, gan gynnwys hunanynsu pe bai ganddynt symptomau. Dywedodd Reena Owens fod pryderon o fewn y gymuned na fyddai pobl yn cael eu galw am ail ddos. Dywedodd Keith Reid fod pobl,	
--	---	--

	wrth adael y canolfannau brechu torfol ar ôl y dos cyntaf, yn cael eu hapwyntiadau ar gyfer yr ail un, a bod trafodaethau ar waith gyda gofal sylfaenol i sefydlu system debyg. Ychwanegodd y byddai'r ail ddos i staff yn dechrau ar 22 Chwefror 2021 ac yn y cyfamser roedd angen penderfynu faint o waith y byddai hyn yn ei olygu wrth barhau ar yr un pryd i roi'r dosau cyntaf. Diolchodd Emma Woollett i Keith Reid a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid, Dorothy Edwards, am eu gwaith parhaus wrth gyflwyno rhaglen frechu gymhleth iawn. Ychwanegodd fod cyflymder y cynnydd yn newyddion da, a'i bod hi a Mark Hackett yn ymweld â chanolfan frechu dorfol y prynhawn hwnnw.	
Penderfyniad:	- Cymeradwywyd y cynllun lleol i frechu carfanau un i bedwar yn unol â Strategaeth Frechu Genedlaethol Cymru; - Cymeradwywyd y gwaith o gomisiynu cymorth gan bractisau meddygon teulu i gyflawni'r rhaglen a chadarnhawyd camau gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo comisiynu gwaith gan ofal sylfaenol mewn dau gam; - Cadarnhawyd y byddai rhagor o frechlynnau'n cael eu comisiynu o fewn gofal sylfaenol yn unol â chynllun dirprwyo'r Bwrdd a'i gyfarwyddiadau ariannol sefydlog; - Dylid nodi'r risgiau sy'n berthnasol i'r rhaglen a'r camau lliniaru; - Dylid cefnogi'r gwaith craffu pellach ar berfformiad y bwrdd iechyd wrth gyflawni'r cynllun, a hynny drwy'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid fel rhan o drefn sicrwydd y bwrdd.	
23/21	MEWNBLANIAD FALF AORTA DRWY GATHETR (TAVI)	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Mewnblaniad Falf Aorta drwy Gathetr (TAVI). Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Richard Evans sylw at y pwyntiau canlynol: - Gwnaed gwaith craffu a gwelliannau ychwanegol mewn perthynas â'r gwasanaeth TAVI ers 2018; - Cynhaliwyd adolygiad achos ac ymweliad â'r safle gan Goleg Brenhinol y Meddygon. Derbyniwyd y canfyddiadau ar gyfer y ddau a datblygwyd cynlluniau gweithredu cynhwysfawr;	

	- Roedd dangosfwrdd ansawdd hefyd yn ei le er mwyn monitro cynnydd; - Roedd y gwasanaeth wedi'i oedi oherwydd Covid-19, gan arwain at nifer o achosion o dorri'r targed aros o 36 wythnos, er bod perfformiad wedi gwella ers hynny; - Yn yr achosion hynny lle y torrwyd y targed o 36 wythnos, yr amser aros cyfartalog rhwng y penderfyniad i gael TAVI a'r driniaeth ei hun oedd wyth wythnos, ac roedd hyn o fewn y targed; Wrth drafod yr adroddiad, dywedodd Martyn Waygood mai'r prif lwybr sicrwydd ar gyfer gwaith TAVI oedd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Rhoddodd glod mawr i Richard Evans am ei gyfraniad i'r gwaith.	
Penderfyniad:	- Cytunwyd ar effeithiolrwydd y newidiadau a weithredwyd a chytunwyd y dangoswyd sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r safonau ar gyfer arferion gorau; - Cytunwyd i barhau i oruchwyllo'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y newidiadau a wnaed yn cael eu hymgorffori ac yn gynaliadwy; - Cytunwyd ar yr ymateb i'r adolygiad achos pellach sy'n cael ei oruchwyllo gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch; - Dylid nodi bod costau'r gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu cynnwys o fewn y rhagolwg ariannol.	
24/21	AROLWG STAFF	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi canfyddiadau arolwg staff GIG Cymru 2020. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Kathryn Jones sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yr arolwg staff cenedlaethol ar agor am dair wythnos yn ystod mis Tachwedd 2020; - Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei gydlynyn ganolog gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru; - Roedd yr holiadur wedi'i symleiddio o flynyddoedd blaenorol a oedd yn ei gwneud yn anodd meincnodi'r canlyniadau yn erbyn rhai 2018;	

- Gellid dadansoddi'r canfyddiadau ar lefel adrannau er mwyn nodi'r meysydd lle ceir problemau;
- Y camau nesaf oedd i'r grwpiau gwasanaeth ddatblygu cynlluniau gweithredu gan fod angen iddynt 'berchen' ar ganfyddiadau eu gwasanaethau;
- Nodwyd tri maes blaenoriaeth allweddol i ganolbwyntio arnynt – perthnasoedd gwaith iachach, iechyd a lles staff ac arweinyddiaeth dosturiol;
- Roedd angen profi'r rhain gyda'r fforymau partneriaeth lleol er mwyn cael adborth cyn iddynt gael eu llunio'n amcanion fel rhan o gynllun y bobl ar gyfer y sefydliad;
- Byddai cynnydd yn cael ei fonitro gan Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol;
- Byddai arolygon rheolaidd yn cael eu cynnal yn fewnol drwy gydol y flwyddyn i benderfynu a yw staff yn cefnogi'r datblygiadau.

Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:

Dywedodd Mark Hackett fod cymaint o feysydd posibl i'r sefydliad ganolbwyntio arnynt ond ei bod yn bwysig lleihau hyn i dri er mwyn i'r rhain gael eu cyflawni yn y ffordd orau bosibl cyn symud ymlaen i'r rhai nesaf. Roedd yn awyddus i gynnal arolygon rheolaidd ag iddynt themâu penodol er mwyn sicrhau bod gwahaniaeth yn cael ei wneud i staff yn y gwaith. Er mwyn gwneud y bwrdd iechyd yn gyflogwr lle mae staff yn hapus yn y gwaith, byddai angen buddsoddi yn y meysydd cywir, a byddai'r arolygon yn rhoi cymorth gyda hyn.

Dywedodd Jackie Davies fod gweithgorau'r fforymau partneriaeth wedi'u hen sefydlu ac y byddai hyn yn helpu'r cydweithio.

Ychwanegodd fod y gyfradd ymateb yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol a oedd yn adlewyrchu'r ffaith fod yr arolwg wedi'i gynnal pan oedd y pandemig ar ei anterth.

Dywedodd Chris White fod adolygiadau perfformiad chwarterol yn cael eu cynnal gyda phob un o'r grwpiau gwasanaeth, a oedd ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar fetrigau traddodiadol ar gyfer y gweithlu, fel absenoldeb oherwydd salwch, ond y gellid eu haddasu i ymwneud yn fwy ag arweinyddiaeth.

Holodd Mark Child a oedd unrhyw ddata cymharol ar gael gyda byrddau iechyd eraill. Ymatebodd Kathryn Jones y byddai ar gael maes o law ond ei bod yn her dadansoddi fformat newydd y data ar hyn o bryd.

	Dywedodd Reena Owen fod staff yn dechrau deall y gwerthfawrogiad y mae'r cyhoedd yn ei deimlo, sy'n un o ganlyniadau cadarnhaol Covid-19.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi canlyniadau cychwynnol yr arolwg; - Cytunwyd y byddai'r camau gweithredu arfaethedig a'r camau nesaf a nodir yn nhabl 2.2.1 yn cael eu harwain gan Gyfarwyddwr y Gweithlu a'r CD a'u hymgorffori yng nghynllun blyneddol 2021-22.	
25/21	ADRODDIADAU AR FATERION ALLWEDDOL	
	(i) <u>Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd ac 15 Rhagfyr 2020, a chafwyd y drafodaeth ganlynol: Dywedodd Martyn Waygood fod atal a rheoli heintiau yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod a bod gwelliannau sylweddol yn amlwg, yn enwedig o ran <i>clostridium difficile</i> ers mis Awst 2020. Fodd bynnag, nodwyd rhywfaint o ddirywiad o ran <i>klebsiella</i>. (ii) <u>Pwyllgor Perfformiad a Chyllid</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd ac 15 Rhagfyr 2020, a chafwyd y drafodaeth ganlynol: Dywedodd Reena Owen fod aelodau wedi nodi'r pwysau ar y system yn sgil Covid-19, yn enwedig o ran gofal wedi'i gynllunio, gydag adroddiadau at wraidd y mater yn cael eu derbyn am hyn, yn ogystal ag am ganser. Darparwyd sicrwydd fod cleifion yn cael eu trin ar sail brys clinigol. Gwnaed cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu mewn ymateb i adolygiad KPMG, a byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu maes o law. Ychwanegodd fod cynaliadwyedd y sector cartrefi gofal hefyd wedi'i godi a oedd yn effeithio ar y niferoedd sy'n feddygol addas i'w rhyddhau. Yn olaf, diolchodd yr aelodau i Darren Griffiths a'r Tîm Cyllid am gadw'r sefyllfa ariannol ar y trywydd iawn. (iii) <u>Pwyllgor Archwilio</u>	

	Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2021, a chynhaliwyd y drafodaeth ganlynol: Dywedodd Martin Sollis fod gwaith wedi dechrau ar yr adroddiadau diwedd blwyddyn ar gyfer cyllid a llywodraethu, ac er y byddai eleni'n edrych yn wahanol, derbyniwyd sicrwydd y byddai'r gofynion yn cael eu bodloni. (iv) <u>Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020, a chynhaliwyd y drafodaeth ganlynol: Dywedodd Tom Crick fod y pwyllgor wedi canolbwyntio ar effeithiau byr a chanolig y pandemig ar staff, sef staff ar y rheng flaen a'r rhai sy'n gweithio gartref, mewn perthynas ag iechyd a lles. Roedd y drafodaeth hefyd wedi ystyried yr effaith ar gydymffurfio â Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. (v) <u>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</u> Cafwyd adroddiad yn nodi trafodaethau'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2020: Dywedodd Martyn Waygood fod elusen y bwrdd iechyd wedi'i derbyn ar gyfer trydedd gyfran arian elusen <i>Together Charity</i> y GIG ac y byddai hyn yn arwain at incwm o £237,000. Byddai'r rhan fwyaf ohono'n cael ei ddefnyddio i goffáu staff ac ar gyfer iechyd a lles staff. (vi) <u>Pwyllgor Iechyd a Diogelwch</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2020.	
26/21	DATBLYGIAD Y CYNLLUN BLYNYDDOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu cynllun blynyddol 2021-22. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Siân Harrop-Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol: - Cytunwyd ar flaenoriaethau'r cynllun blynyddol mewn sesiwn pwyllgor o'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2020 ac roeddent yn	

	cynnwys yr ymateb i Covid-19, gofal heb ei drefnu a mynd i'r afael â'r achosion o ofal wedi'i gynllunio a oedd wedi cronni; - Roedd hefyd yn cynnwys blaenoriaethau gweinidogion Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys yr ymagwedd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdani; - Cafwyd adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ar gynllun cyflawni gweithredol chwarter tri/pedwar ac roedd angen adeiladu ar hyn. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Nododd Martyn Waygood y gofyniad i gyflwyno cynlluniau blynyddol y clwstwr gofal sylfaenol erbyn 29 Ionawr 2021 a holodd a oeddent ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau erbyn hynny. Ymatebodd Siân Harrop-Griffiths fod perthynas waith agos gyda'r clystyrau ac y byddai'r cynlluniau'n cael eu cyflwyno drwy'r uwch dîm arweinyddiaeth ar 3 Chwefror 2021 felly byddai cais yn cael ei gyflwyno i ymestyn y dyddiad cau. Holodd Emma Woollett a oedd angen cael sesiwn briffio ar gyfer y Bwrdd cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod mis Mawrth 2021. Cytunodd Siân Harrop-Griffiths y byddai hynny'n ddefnyddiol i sicrhau cytundeb y Bwrdd â chynnwys yr adroddiad. Cytunodd Mark Hackett, gan ychwanegu bod trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd ynghylch yr angen i ddatblygu blaenoriaethau mewnol ar gyfer pob agwedd o'r hyn yr oedd y bwrdd iechyd yn bwriadu ei wneud. Dywedodd Mark Hackett fod y bwrdd iechyd yn wynebu newidiadau sylweddol a fyddai'n arwain at ganlyniadau ariannol, ac roedd angen trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid adennill hynny.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi i'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad cynllun blynyddol 2021-22; - Dylid nodi statws cynlluniau blynyddol y clwstwr gofal sylfaenol a'r angen i'w gwneud yn gydnaws â chynllun y bwrdd iechyd; - Cytunwyd ar yr angen am sesiwn briffio ar gynnwys y cynllun blynyddol ar gyfer y Bwrdd cyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo ym mis Mawrth.	
27/21	PARTNERIAETHAU'R GIG	

	Derbyniwyd adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill GIG Cymru. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Siân Harrop-Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd 14 o gynigion wedi'u cyflwyno i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) i wneud cais am gyfran o'i danwariant, a derbyniwyd y rhan fwyaf o'r cynigion; - Roedd y Rhwydwaith Trawma Mawr yn parhau i weithio'n dda er bod rhai heriau i'w datrys o ran symud cleifion i'w hysbytai lleol; - Derbyniwyd cymeradwyaeth er mwyn i'r achos amlinellol strategol ar y cyd ar gyfer patholeg gydag Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gael ei ddatblygu'n achos busnes amlinellol; - Roedd y gwaith partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bellach wedi'i ffurfioli drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi i'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau partneriaeth a chomisiynu'r bwrdd iechyd ar y cyd â'r GIG.	
28/21	PARTNERIAETHAU ALLANOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bartneriaethau allanol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Siân Harrop-Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd y rhan fwyaf o gytundebau ffurfiol wedi'u gwrthod oherwydd y pandemig, ond roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fod i gyfarfod yr wythnos ganlynol; - Roedd ymgynghoriad ar y gweill ar y trefniadau ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol a threfnwyd sesiwn Bwrdd ar gyfer mis Mawrth 2021 i gytuno ar ymateb y bwrdd iechyd. Wrth drafod yr adroddiad, nododd Mark Child y cyfeiriad yn yr adroddiad at yr angen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gofynnodd a wnaed hyn. Ymatebodd Siân Harrop-Griffiths fod y fforwm yn dal i weithredu o fewn trefniadau llywodraethu brys ac y bu ymgysylltu gwell yn sgil hynny,	

	gan gynnwys nifer o drafodaethau anffurfiol. Oherwydd hyn, roedd cyfathrebu wedi gwella ond roedd mwy y gellid ei wneud o hyd.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r partneriaethau allanol allweddol y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rhan ohonynt; - Dylid nodi'r materion a drafodwyd gan y partneriaethau allanol hyn a'r goblygiadau allweddol i'r bwrdd iechyd; - Dylid nodi cofnodion y cyfarfodydd partneriaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar.	
29/21	Y SECTOR GWIRFODDOL	
	Gohiriwyd adroddiad yn nodi'r amserlen ar gyfer caffael mewn perthynas â fframwaith y sector gwirfoddol.	
30/21	MATERION ALLWEDDOL GAN GRWPIAU CYNGHORI	
	(i) <u>Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid</u> Derbyniwyd a nodwyd diweddariad llafar yn rhoi manylion y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar 19 Ionawr 2021, a thrafodwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Christine Williams fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y grŵp wedi'u hethol, sef Alison Stokes ac Alex Aitkens yn y drefn honno. Ychwanegodd, er bod nifer o'r cyflwyniadau'n canolbwyntio ar Covid-19, fod problem wedi'i chodi mewn perthynas ag anallu i ddarparu llythyrau print bras ar gyfer apwyntiadau. Ymatebodd Matt John fod barn o bob rhan o Gymru yn cael ei cheisio ar y mater er mwyn datblygu'r achos a mynd ag ef at Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), yn ogystal ag er mwyn gwybod am y datrysiadau a oedd yn cael eu defnyddio ar lefelau lleol er mwyn i'r bwrdd iechyd allu dysgu ohonynt yn y cyfamser. Byddai diweddariad yn cael ei ddarparu maes o law. (ii) <u>Fforwm Partneriaeth Lleol</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Fforwm Partneriaeth Lleol, a thrafodwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Kathryn Jones mai'r pandemig oedd prif ffocws y fforwm o hyd, ond bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r cyd-gadeiryddion i symud y trafodaethau yn eu blaen.	MJ

	Gofynnodd Maggie Berry am fanylion pellach am sylwadau gan staff am forâl. Ymatebodd Kathryn Jones y cafwyd disgrifiadau byw o ran sut roedd staff yn teimlo, yn enwedig o ran blinder a sut y teimlai pobl fod pethau fel pe baent allan o'u rheolaeth. Ychwanegodd fod effaith sylweddol arnynt fel unigolion am eu bod yn gweithio ar y fath gyflymder.	
31/21	ADOLYGU STATWS PRIFYSGOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi ymateb y bwrdd iechyd i'r adolygiad o statws bwrdd iechyd prifysgol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Richard Evans sylw at y pwyntiau canlynol: - Adolygir statws prifysgol byrddau iechyd bob tair blynedd; - Roedd yr adroddiad yn nodi'r hyn a gyflawnwyd hyd yma, yn ogystal â'r dyheadau ar gyfer y dyfodol, ac fe'i lluniwyd ar y cyd â'r Tîm Ymchwil a Datblygu a Phrifysgol Abertawe.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi i'r adroddiad; - Cymeradwywyd yr ymateb arfaethedig i adolygiad Llywodraeth Cymru o statws prifysgol y bwrdd iechyd.	
32/21	CYFLYMWR UNIONLIN C	
	Derbyniwyd adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno achos busnes dros gyllid ar gyfer peiriant cyflymwr unionlin newydd. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Siân Harrop-Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol: - Diben yr achos busnes oedd disodli offer a oedd wedi cyrraedd diwedd ei gyfnod gweithredu; - Roedd peiriant arall eisoes yn y broses o gael ei ddisodli, felly byddai'r broses honno'n dod i ben cyn i'r un nesaf ddechrau er mwyn sicrhau na fyddai toriad yn y gwasanaeth; - Er ei bod yn weddol syml gosod y cyflymwr unionlin, mae'r comisiynu gweithredol yn dasg gymhleth, felly ni fyddai ar gael tan fis Mawrth 2022; - Roedd rhai costau refeniw yn gysylltiedig â hyn, a oedd yn ymwneud yn bennaf â chynnal a chadw;	

	- Roedd cynllun ariannol ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gan fod y gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu i ddinasyddion y bwrdd iechyd hwnnw. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Cyfeiriodd Martin Sollis at y costau refeniw cysylltiedig a dywedodd, gan ei fod yn ddarn newydd o offer, fod angen ystyried y rhain yn ofalus ymlaen llaw er mwyn peidio ag effeithio ar y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn. Cytunodd Darren Griffiths, gan ychwanegu bod sefydliadau partner wedi cael gwybod am y model refeniw presennol i'w ymgorffori yn eu cynlluniau ariannol a bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r grŵp gwasanaeth er mwyn penderfynu ar y manteision ariannol i wrthbwysu'r costau. Holodd Emma Woollett a ymgorfforwyd y cyflymwr yn y strategaeth ganser gyffredinol. Ymatebodd Siân Harrop-Griffiths fod gwaith wedi dechrau cyn y pandemig ar achos busnes ar gyfer rhaglen gyflawni 10 mlynedd ar gyfer y strategaeth ganser ond bod hyn wedi'i ohirio tra bod y bwrdd iechyd yn ymateb i Covid-19. Roedd y strategaeth ar gyfer y ganolfan ganser yn Ne-ddwyrain Cymru wedi cael ei hystyried fel rhan o'r gwaith er mwyn dysgu o arferion da.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ar y cynllun hwn; - Dylid nodi'r ffordd y rheolir y costau refeniw drwy brosesau ariannol y bwrdd iechyd a dylid darparu adborth ynghylch pam y mae'r costau'n uwch; - Cymeradwyo bod y bwrdd iechyd yn cyflwyno achos cyfiawnhad busnes i Lywodraeth Cymru er mwyn iddo gael ei gadarnhau.	SHG
33/21	ADRODDIAD PERFFORMIAD	
	Derbyniwyd yr adroddiad perfformiad integredig. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Darren Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd nifer yr achosion newydd o Covid-19 wedi cynyddu'n sylweddol ers mis Tachwedd 2020, gan gyrraedd uchafbwynt o 500 y dydd; - Bellach, cafwyd llai na 100 o achosion newydd bob dydd;	

	- Ar ei anterth, roedd 230 o gleifion yn yr ysbytai yn cael eu trin ar gyfer y feirws ac roedd hyn bellach i lawr i 161. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod cleifion yn aros yn hirach yn yr ysbyty nag yn ystod y don gyntaf, ac roedd llawer o gleifion yn dal i gael eu nodi fel rhai sy'n 'gwella o Covid'; - Ym mis Tachwedd 2020, roedd 700 o staff wedi bod yn hunanynysu. Roedd rhai yn asymptomatig tra bod eraill wedi nodi symptomau. Roedd hyn bellach wedi gostwng i 295; - Gwelwyd llai o bresenoldebau yn yr adran achosion brys, gan adlewyrchu'r un ymddygiad gan y cyhoedd ag a gafwyd yn ystod y don gyntaf. Fodd bynnag, roedd yn heriol perfformio'n unol â'r targed aros o bedair awr, gan fod y cymhlethdod o weithio'n ddiogel yn gwneud y llif yn arafach; - Am y tro cyntaf ers nifer o fisoedd, roedd cyfradd ymateb ambiwlansys i alwadau coch wedi gostwng i lai na 65% yn erbyn y targed, ac er bod hyn wedi gwella ers hynny, roedd yn tynnu sylw at y pwysau ar y system; - Derbyniwyd llai o atgyfeiriadau, ond roedd y rhestr aros am ofal arfaethedig yn parhau i dyfu o ran hyd yr amser aros, gan arwain at nifer o achosion o dorri targedau am fod y gwasanaethau'n rhedeg ar lefel is; - Roedd perfformiad yn gwella o ran diagnosteg a therapïau; - Roedd y bwrdd iechyd bellach yn adrodd yn erbyn y metrig ar gyfer yr un llwybr cancer newydd, yn hytrach na'r llwybrau blaenorol ar gyfer cancer brys a chanser nad yw'n achos brys.	
Penderfyniad:	- Derbyniwyd sicrwydd fod y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid wedi craffu ar yr adroddiad. - Dylid nodi perfformiad y bwrdd iechyd yn erbyn mesurau a thargedau allweddol.	
34/21	ADRODDIAD ARIANNOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi'r sefyllfa ariannol ar gyfer mis saith. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Darren Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol: - Y sefyllfa ariannol ar gyfer mis naw (Rhagfyr 2020) oedd gorwariant o £1.9m, a oedd yn unol â'r rhagolwg ariannol;	

	- Y sefyllfa gronnol oedd diffyg o £18.6m, a oedd yn gyson â'r diffyg o £24.4m a ragolygwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn; - Roedd y sefyllfa ariannol a ragolygwyd ar gyfer 2021-22 wedi gwella o £38m i £24.4m o ganlyniad i gyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru; - Derbyniwyd y cynnydd o 2% (15m) yn y dyraniad cenedlaethol, ond roedd hyn yn debygol o gael ei wrthbwysu gan gostau; - Roedd yn rhaid cynnwys nifer o risgiau i arbedion yn y cynllun, gan gynnwys Brexit, Covid-19 a gofal iechyd parhaus; - Roedd Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl cadarnhad am sut y byddai Covid-19 yn cael ei ariannu yn y flwyddyn ariannol nesaf.	
Penderfyniad:	- Derbyniwyd sicrwydd bod y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid wedi craffu ar yr adroddiad. - Dylid nodi'r perfformiad ariannol y Bwrdd ar gyfer cyfnod naw (Rhagfyr) 2020-21; - Dylid nodi'r risgiau a'r cyfleoedd; - Dylid nodi'r darlun sy'n dod i'r amlwg o ran rhagolygon ariannol 2021-22 a'r gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio er mwyn datblygu hyn.	
35/21	ADRODDIAD BLYNYDDOL AC ASESIAD STRWYTHUREDIG ARCHWILIO CYMRU	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi canfyddiadau adroddiad blynyddol ac asesiad strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2020. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Dave Thomas sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yr adroddiad blynyddol yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio perfformiad ac ariannol yn 2020, yn ogystal â chanlyniad yr asesiad strwythuredig; - Roedd yr asesiad strwythuredig wedi'i gynnal yng nghydestun y pandemig ac roedd yn tynnu sylw at ymagwedd gadarnhaol a gwydn; - Gellid cymryd negeseuon cadarnhaol o'r ddau adroddiad;	

	- Roedd diweddariad cynnydd ar gyfer 2021 wedi'i atodi i'r adroddiad blynyddol. Yng nghyd-destun y sefyllfa bresennol, cydnabuwyd y byddai angen i bob darn o waith ddechrau fesul achos. Wrth drafod yr adroddiad, dywedodd Darren Griffiths fod yr archwiliadau ariannol wedi'u cynnal yn union fel yr oedd ton gyntaf y pandemig wedi dechrau, pan ofynnwyd i staff cyllid y byrddau iechyd weithio gartref, ac roedd Archwilio Cymru yn addasu i weithio'n rhithwir. Diolchodd i gydweithwyr Archwilio Cymru am y dull pragmatig a gymerwyd yn ystod y pandemig a diolchodd Dave Thomas yntau i'r bwrdd iechyd.	
Penderfyniad:	- Dylid derbyn ac adrodd ar y llythyr archwilio blynyddol; - Dylid derbyn ac adrodd ar yr adroddiad asesu strwythuredig; - Cytunwyd y byddai'r tîm gweithredol yn mynd i'r afael â'r cyfleoedd i wella fel y cânt eu hamlinellu yn yr adroddiad; - Cytunwyd i gyflawni'r argymhellion sy'n weddill o adroddiadau blaenorol erbyn diwedd mis Mawrth 2021; - Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio'n parhau i graffu ar y modd y cyflawnir yr argymhellion.	
36/21	MATERION LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi materion llywodraethu corfforaethol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Pam Wenger fod trafodaethau'n parhau rhyngddi hi, Emma Woollett a Mark Hackett ynghylch trefniadau priodol ar gyfer y pwyllgorau ac y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu'n fisol. Wrth drafod yr adroddiad, cyfeiriodd Siân Harrop-Griffiths at y materion a drafodwyd gan y pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf a dywedodd fod gwerthu Fairfield yn ymwneud â thŷ ar safle Ysbyty Cefn Coed ac nid yn ymwneud ag Ysbyty Fairfield ei hun.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi yr adroddiad; - Cymeradwywyd y newidiadau i drefniadau'r pwyllgorau a chytunwyd y bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n fisol gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.	



37/21	UNRHYW FATER ARALL	
	Nid oedd unrhyw fusnes pellach a daeth y cyfarfod i ben.	
38/21	DYDDIAD CYFARFOD NESAF Y BWRDD	
	Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf oedd 25 Mawrth 2021.	